

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,  
Nos Lun, 26 Mehefin 2017 am 7.00 o'r gloch.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Ms JA Roberts (yn y gadair) **JAR**, Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**,  
Mr Victor Owen **VO**, Ms R W Owen **clerc**, Mr O G Roberts **OGR**, Mrs EAB Thomas **EABT**,  
Cynghorwr John Griffith **JG**.

### Ymddiheuriadau:

Dr Edward Jones, Mr Aled Ifan.

Croesawyd **EABT** yn ol fel aelod wedi ei chyf ethol. Llongyfarchwyd **JG** ar ei etholiad fel cynghorwr sir.  
Diolchodd **JG** i'r cadeirydd, a mynegodd ei ddiolchgarwch am gael mynychu.

## Datgan Diddordeb.

**JG** ynglyn ac eitem 5 ac **RWO** ynglyn ac eitem 6.1

## 2. Cofnodion Mai 2017 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Adroddwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion.

**OGR** yn cynnig eu bod yn gywir, a **VO** yn eilio.

2.1 Arwyddion newydd. Adroddodd y clerc fod yr arwyddion newydd yn barod i'w gosod ac fod **CSYM** wedi trefnu i Dawnus eu gosod.

2.2 Cais cynllunio Gate Farm. Nodwyd fod pryderon yn parhau ynglyn a'r cais ar sail trafndiaeth ar effaith ar y lonydd lleol, diolgelwch gyda loriau mawr ar y lonydd yn ddyddiol yn ystod y gwaith adeiladu ac wedyn gyda casglu llaeth a bwydo'r anifeiliaid, iechyd dynol a iechyd yr anifeiliad oherwydd y niferoedd o wartheg, ac effaith ar y tir oherwydd gwlybaniaeth. Nid yw'r cais wedi dod ymlaen pwyllgor cynllunio **CSYM** eto, a cytunwyd i'r clerc roi gwadd i'r cwmni sy'n gwneud y cais i'r cyfarfod nesaf i drafod y pryderon ymhellach, gyda **EABT** yn cynnig a **VO** yn eilio. Nodwyd diddordeb hefyd yn faint o sylw mae **CSYM** yn roi i unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i geisiadau cynllunio? Nododd **JG** eu bod yn cael eu hystyried ar bob achlysur ond fod penderfyniadau swyddogion **CSYM** wedi eu seilio ar y polosiau sydd mewn lle.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 3. Ffurflenni blynyddol 2016-17 ar gyfer archwiliad BDO.

Adroddodd y clerch fod y archwiliad mewnol wedi ei gwblhau ac bod y ffurflenni yn barod i fynd ymlaen i'r archilwyr allanol, BDO. Arwyddwyd gan **JAR**, a'r clerch i'w gyrru ymlaen.

## 4. Maes Chwarae/ Ffrindiau Bodedern.

Adroddodd CJ fod offer newydd wedi ei archebu ac byddai cyfarfod yn cael ei gynnal i benderfynnu ar ei leoliad. Cynhaliwyd sesiynnau chwarae llwyddiannus gan Groundworks unwaith eto, gyda dyddiadau eto i ddod yn y dyfodol.

## 5. Materion Cynllunio.

### 5.1 Tre Hwfa, Bodedern 13C197

Cytunwyd byddai'r dirywiad yn yr adeilad heb waith atgyweirio yn parhau. Dim gwrthwynebiad.

## 6. Gohebiaeth

6.1 Cais am ddyluniad ar tu blaen a chefn carreg fedd. Dim gwrthwynebiad. Y clerch i gadarnhau nad oedd hawlfraint ar y llun.

6.2 Agenda a manylio cyfarfod Pwyllgor ardal ynys mon gan Un Llais Cymru.

6.3 Gwahoddiad i enwebu aelod i Bwyllgor Safonau. Dim enwebiad.

## 7. Eisteddfod 2017.

Adroddwyd fod gwaith wedi cychwyn ar y safle. Nododd **JAR** ei bod yn ymwybodol fod rhai unigolion wedi mynegi pryderon ynglyn a'r system unffordd a'r effaith ar fusnesau ond na byddai'n cael effaith ar y cynlluniau.

## 8. Taliadau i'w gwneud.

Mon CF	Maes Chwarae 16 & 17	£2828.59
Mon GC	MGC2297	£300.00
ROSPA	Archwiliad y Parc	£92.40
Macventure Play Ltd	4478	£1434.00
The Sign Factory	14105	£1814.00
Rent Cae Chwarae	SP325	£58.00

Clerch/ Clerch:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 Nodwyd fod chwyn yn tyfu ogwmpas y pentref, ac yn edrych yn fler iawn mewn ambell i le.

Y clerch i wneud ymholiadau i CSYM pa bryd byddai chwynladdwr yn cael ei chwistrellu.

9.2 Nododd LJ fod y broblem o dwr yn casglu ar y lon ddim ymhell o Ysgol Towyn, cyn y bont rheilffordd.

Nododd fod cynghorwyr o Gyngor Cymuned Caergeiliog yn bwriadu gwneud ymholiadau gyda'r adran briffyrdd i weld os byddai modd gwneud gwelliannau i'r lon. Y clerch i wneud ymholiadau hefyd er mwyn cryfhau y cais.

9.3 Nododd LJ ei bod wedi derbyn gwybodaeth fod grant i'w gael ar gyfer edrych ar ol llwybrau cyhoeddus ac efallai gallai fod yn help i gynnal Lon Dywyll. Y clerch i wneud ymholiadau os byddai'r cyngor cymuned yn gymwys am gymorth ac os yw Lon Dywyll yn lwybr cyhoeddus.

9.4 Nododd LJ fod pryderon yn parhau am gysylltiad band eang ar gyffiniau'r pentref. Nodwyd fod Rhun ap Iorweth yn bwriadu trafod ac ymateb i'r pryderon mewn cyfarfod i'w gynnal y nos Lun canlynol.

9.5 Nododd y clerch ei bod yn dal disgwl ymateb CSYM i gais am ganiatad i osod blodau o amgylch y pentref. Gallai'r pryderon ynglyn ac beth oedd yn ymddangos fel diffyg gweithredu ar geisiadau'r cyngor cymuned i wneud gwelliannau i'r pentref gael eu mynegi i'r prif weithredwr os na byddai gwelliant yn y cyfarthrebu.

9.6 Nododd y clerch ei bod wedi derbyn cwyn ynglyn a cyflwr y gwrychyn yn y fynwent ac ogwmpas y waliau a ffiniau. Y clerch i ofyn am ddyfnbris gan MGC i wneud y gwaith.

9.7 Mynwgyd pryderon fod y rhan o'r giatau yn y fynwent yn parhau i rydu. Nododd y clerch ei bod yn disgwl dyfnbris gan dau gwmni am eu trin.

Cau 8.25

Arwyddwyd :

Dyddiad :

Clerch/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com